**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

**Dyddiad y Cyfarfod:** 19 Gorffennaf 2017

**Swyddog Arweiniol:** Gerry Lapington

**Awdur yr Adroddiad:** Gerry Lapington

**Teitl:** **Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol**

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Hysbysu'r pwyllgor am berfformiad a rhaglen waith flynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol. Darparu graddfa sicrwydd o safonau diogelwch CSDd ym mhob maes gwasanaeth a chynghori ar waith pellach sydd wedi ei gynllunio ar gyfer 2017-18.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

**Darparu sicrwydd i'r pwyllgor fod damweiniau a digwyddiadau yn cael eu hadrodd a'u monitro; fod gweithgarwch yn cael ei gynllunio'n unol â gwybodaeth a ddarperir gan ddadansoddiad bylchau a pheryglon y gwasanaeth; a bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu fel bo'r angen.**

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Fod y pwyllgor yn nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol 2016 – 17 a atodwyd (atodiad 1), a'r Adroddiad Digwyddiadau a Damweiniau 2016 – 17 (atodiad 2) ac yn ardystio cynllun gwaith y Tîm Iechyd A Diogelwch Corfforaethol ar gyfer 2017 – 18.

**4. Manylion yr adroddiad**

Gweler Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol 2016 – 17 a atodwyd (atodiad 1), ac Adroddiad Digwyddiadau a Damweiniau 2016 – 17 (atodiad 2)

**Sicrwydd canolig (melyn) sydd i asesiad cyffredinol gweithrediad CSDd o systemau Iechyd a Diogelwch ac ymwneud gweithwyr ag Iechyd a Diogelwch. Mae hyn yn golygu fod systemau rheoli Iechyd a Diogelwch yn gyffredinol wedi eu datblygu ac yn cael eu cofnodi. Mae peryglon sylweddol yn cael eu nodi a'u rheoli er mwyn lleihau risg. Yn gyffredinol mae gweithwyr yn ymwneud â datblygiad ac â defnydd systemau rheoli Iechyd a Diogelwch.**

**Mae gan CSDd record iechyd gweddol dda ac mae rheolaeth Iechyd a Diogelwch yn broses o welliant parhaus. Yn ystod 2016 cwblhaodd pob gwasanaeth Hunanasesiad Dadansoddiad O'r Bylchau a adolygwyd gan Iechyd a Diogelwch Corfforaethol fel rhan o broses flynyddol Her Perfformiad Gwasanaeth. Yn ogystal â hyn, gwnaed y cwrs 'Rheoli'n Ddiogel yn CSDd' yn orfodol ar gyfer Rheolwyr, a hyd yn hyn mae 64 o Reolwyr wedi mynychu.**

Mae gwelliannau pellach wedi eu cynllunio ar gyfer 2017 – 18. Yn ogystal â'r rhaglen a amlinellir yn yr Adroddiad Blynyddol, bydd y tîm Iechyd a Diogelwch yn mynychu

cyfarfodydd tîm rheoli gwasanaeth er mwyn trafod y Dadansoddiad O'r Bylchau a'r rhaglen wella. Bydd arolwg ymwybyddiaeth yn cael ei gynnal er mwyn mesur gwybodaeth Iechyd a Diogelwch o fewn y sefydliad ac elfen ar-lein o Iechyd a Diogelwch yn cael ei datblygu ar gyfer y cyflwyniad sefydlu corfforaethol.

5. **Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**
Disgwylir safonau da o Iechyd a Diogelwch ym mhob maes a reolir gan yr awdurdod lleol ac maent yn tanategu pob un o'r Blaenoriaethau Corfforaethol.

6. **Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**
Nid oes angen cyllideb ychwanegol.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**
Dim angen (trafodwyd gyda Steve Price).

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**
Dim

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**
Does dim costau ychwanegol wedi eu nodi o fewn yr adroddiad.

10. **Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**
Amherthnasol.

11. **Grym i wneud y Penderfyniad**
Amherthnasol.